OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2814 (Cy.271)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'u gwneud - -	*14 Tachwedd 2002*
Yn dod i rym - -	*15 Tachwedd 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 484, 489 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 15 Tachwedd 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

Diwygio Rheoliadau

2. Yn Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002(**3**), yn lle'r Atodlen rhodder—

"**YR ATODLEN** Rheoliadau 2, 3 a 7

Y DIBEN Y MAE GRANT YN DALADWY AR EI GYFER NEU MEWN CYSYLLTIAD AG EF

1. Gwneud dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol o'r enw Grantiau Dysgu'r Cynulliad o dan Reoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002(**4**) i bersonau—

(**1**) 1996 p.56; diwygir adrannau 484 a 489 gan adran 140(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a pharagraffau 125 a 126 o Atodlen 30 iddi. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 579(1).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2002/1857 (Cy.181).
(**4**) O.S. 2002/1856 (Cy.180).